Office for Nuclear Regulation

Swyddfa dros Reoli Niwclear

Cymeradwyaeth ONR o dan LC11(3) – Cymeradwyaeth o Newid neu Ddiwygiad i Gynlluniau Argyfwng Cymeradwy
Newidiadau i Swyddogaeth Gymorth Argyfwng Ganolog Magnox Cyf

Adroddiad Asesiad Prosiect ONR-DFW-PAR-15-026
Adolygiad 0
24 Mawrth 2016

© Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2014
Os dymunwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.onr.org.uk/copyright am fanylion.
Cyhoeddwyd 09/16

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, mae'r copi electronig ar y wefan ONR yn aros fel y fersiwn mwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae copïo neu argraffu'n golygu nad yw'r ddogfen hon wedi'i rheoli.

.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Teitl
Newidiadau i Swyddogaeth Gymorth Argyfwng Ganolog Magnox Cyf

CAIS AM GANIATADAU

Mae Magnox Cyfyngedig, trwyddedai Sizewell A, Hinkley Point A, Hunterston A, Oldbury, Wylfa, Chapelcross, Berkeley, Dungeness A, a safle Bradwell, wedi ysgrifennu at y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) i ofyn am gymeradwyaeth o dan Amod Trwydded (LC) 11 (3) i newid neu ddiwygio'r cynlluniau argyfwng ar gyfer y safleoedd hyn. Mae'r ceisiadau wedi codi o ddiwygiad arfaethedig y trwyddedai i gynlluniau argyfwng y safleoedd priodol yn codi o'i gynnig i newid y cymorth a ddarperir i'r safleoedd gan ei swyddogaeth Gymorth Argyfwng Ganolog.

Mae'r ceisiadau gan safleoedd Sizewell A a Hunterston A yn cynnig diwygiadau i gynlluniau argyfwng y safleoedd priodol i gynnwys newidiadau sy'n cymryd i gyfrif penderfyniad Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001 (REPPIR) ar gyfer yr ardal gynllunio argyfwng oddi ar y safle.

Mae'r cais gan safle Hinkley Point A yn cynnig diwygiad i gynllun argyfwng y safle i gynnwys newidiadau i'r broses bontio o ddatgomisiynu at ofal a chynhaliaeth trwy ymgorffori trefniadau wrth gefn.

Mae'r cais gan safle Oldbury yn cynnig diwygiad i gynllun argyfwng y safle i gynnwys newidiadau sy'n adlewyrchu'r broses bontio i'w drefniadau ar gyfer datgomisiynu.

Mae'r cais gan safle Wylfa yn cynnig diwygiad i gynllun argyfwng y safle i gynnwys newidiadau sy'n adlewyrchu'r broses bontio i'w drefniadau datlenwi.

Cefndir

Mae'r cyflwyniadau'n gwneud diwygiadau i ddeg cynllun argyfwng safle adweithydd Magnox , sy'n codi o gynnig i newid y cymorth a ddarperir i safleoedd gan ei swyddogaeth Gymorth Argyfwng Ganolog. Trafodir y newidiadau hyn trwy adolygu ei Dempled Cynllun Argyfwng Generig. Cyflwynwyd ceisiadau ar wahân gan bob safle o dan ei drwydded safle briodol yn gofyn am Gymeradwyaeth o'r diwygiadau neu newidiadau i'r cynllun argyfwng safle ac wedi'i gefnogi gan lythyr corfforaethol yn darparu'r deunydd generig/cyffredinol y seilir pob cynllun safle arno.

Mae rhai o'r cynlluniau argyfwng safle'n ymgorffori newidiadau ychwanegol i drafod naill ai newid o ran statws o fewn REPPIR neu newid o ran cyfnod gweithredol.

Ar hyn o bryd mae pob safle adweithydd Magnox yn cael ei gefnogi gan Ganolfan Gymorth Argyfwng Ganolog (CESC) a leolir, wedi'i sefydlu, ym Mhencadlys EdF Nuclear Generation Cyfyngedig ym Marnwood, Caerloyw. Mae staff CESC yn cynnwys cyflogeion Magnox Cyf â rhywfaint o gymorth contract. Cynlluniwyd CESC i gefnogi fflyd o orsafoedd pŵer niwclear sy'n cynhyrchu, lle roedd yr arbenigedd technegol i gefnogi'r holl safleoedd wedi'i gasglu a'i ganoli. Caiff y CESC ei ddisodli gan gyfleusterau amgen yn Swyddfa Gymorth Berkeley Magnox y cyfeirir ati fel y Gell Gymorth Ganolog (CSC).

Gwaith asesu ac arolygu a wnaed gan ONR tra'n ystyried y cais hwn

Mae ONR wedi cynnal rhaglen o waith sy'n cynnwys asesu ac arolygu cyflwyniaday'r Trwyddedai er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â safonau rheoleiddiol a disgwyliadau.

Materion yn codi o waith ONR

Nid oes problemau yn dal heb eu datrys o waith asesu ac arolygu ONR.

Casgliadau

Rwyf yn fodlon, trwy gyfuniad o waith asesu gan arolygwyr arbenigol, arolygu gan arolygwyr safle Enwebedig, ac yn unol â chyfarwyddyd ONR, bod yr adolygiadau arfaethedig i'r cynlluniau argyfwng ar gyfer y safleoedd Magnox dilynol yn ddigonol er mwyn diwallu gofynion Amod Trwydded 11:

- Trawsfynydd
- Bradwell
- Berkeley
- Chapelcross
- Hunterston A
- Hinkley Point B
- Dungeness A
- Sizewell A
- Oldbury

Rwyf yn fodlon bod y newidiadau i'r swyddogaeth gymorth ganolog yn addas i sicrhau bod yr adolygiad arfaethedig i gynllun argyfwng safle Wylfa'n cymorth canolog yn ddigonol er mwyn diwallu gofynion Amod Trwydded 11.

Cefnogir y strategaeth i fabwysiadu Cyfarwyddyd Dros Dro Arbennig yn Wylfa yn absenoldeb y gallu i weithredu cynllun argyfwng safle cymeradwy, yn trafod y newid CESC/CSC, cyn diwedd Ebrill 2016, gan ONR.

Argymhelliad

Rwyf yn argymell;

- Mae'r Arolygydd Goruchwylio am yr is-raglen ar gyfer Safleoedd Magnox ac Adfer yn derbyn y dyfarniadau rheoleiddiol yn yr adroddiad hwn sy'n cyfiawnhau cyhoeddi Offer Trwydded (LI) 537, 511, 512, 529, 512 508, 523, 513, a 553.
- Mae'r Arolygydd Goruchwylio am yr is-raglen ar gyfer Safleoedd Magnox ac Adfer yn cymeradwyo'r adroddiad hwn i'w gyhoeddi wedi ei olygu fel sy'n briodol.
- Mae'r Cyfarwyddwr Rhaglen am y Rhaglen Ddatgomisiynu, Tanwydd a Gwastraff yn llofnodi'r Offer Trwydded a restrir uchod yn rhoi Cymeradwyaeth o'r newidiadau neu ddiwygiadau i'r cynlluniau argyfwng o dan LC 11(3) ar gyfer y safleoedd dilynol:
  - Bradwell (LI 512)
  - Berkeley (LI 511)
  - Chapelcross (LI 537)
  - Hunterston A (LI 523)
  - Hinkley Point A (LI 508)
  - Dungeness A (LI 512)
  - Sizewell A (LI 513)
  - Oldbury (LI 553)
  - Trawsfynydd (LI 529)

RHESTR O FYRFODDAU

BKA	Berkeley
BRA	Bradwell
CESC	Canolfan Gymorth Argyfwng Ganolog
CSC	Cell Gymorth Ganolog
CX	Chapelcross
DNA	Dungeness A
ECC	Canolfan Reoli Argyfwng
EHSS&Q	Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch, Diogeledd ac Ansawdd
GTA	Cynghorydd Technegol y Llywodraeth
HIRE	Nodi Peryglon a Gwerthuso Risg
HNA	Safle Hunterston A
HPA	Safle Hinkley Point A
LC	Amod Trwydded
LI	Offeryn Trwydded
NSC	Pwyllgor Diogelwch Niwclear
OBA	Safle Oldbury
ONR	Swyddfa dros Reoli Niwclear
OTC	Canolfan Dechnegol Oldbury
PAR	Adroddiad Asesiad Prosiect
REPPIR	Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001
RIMNET	Rhwydwaith Monitro Digwyddiadau Ymbelydrol
RoA	Cofnod o Asesiad
SZA	Safle Sizewell A
TiiMS	Y System Reoli Gwybodaeth ar Ddigwyddiadau
TRW	Trawsfynydd
WYA	Safle Wylfa

TABL CYNNWYS

1 CAIS AM GANIATÂD 7
2 CEFNDIR 7
3 GWAITH ASESU AC AROLYGU A WNAED GAN ONR TRA'N YSTYRIED Y CAIS HWN ..... **ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
4 MATERION YN CODI O WAITH ONR 11
5 CASGLIADAU 11
6 ARGYMHELLION 11
7 CYFEIRIADAU 13

1 CAIS AM GANIATÂD

1. Mae Magnox Cyfyngedig, trwyddedai Sizewell A, Hinkley Point A, Hunterston A, Oldbury, Wylfa, Chapelcross, Berkeley, Dungeness A, a safle Bradwell, wedi ysgrifennu at y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) i ofyn am gymeradwyaeth o dan Amod Trwydded (LC) 11 (3) i newid neu ddiwygio'r cynlluniau argyfwng ar gyfer y safleoedd hyn. Mae'r ceisiadau wedi codi o ddiwygiad arfaethedig y trwyddedai i gynlluniau argyfwng y safleoedd priodol yn codi o'i gynnig i newid y cymorth a ddarperir i'r safleoedd gan ei swyddogaeth Gymorth Argyfwng Ganolog.

2. Mae'r ceisiadau gan safleoedd Sizewell A a Hunterston A yn cynnig diwygiadau i gynlluniau argyfwng y safleoedd priodol i gynnwys newidiadau sy'n cymryd i gyfrif penderfyniad Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001 (REPPIR) ar gyfer yr ardal gynllunio argyfwng oddi ar y safle.

3. Mae'r cais gan safle Hinkley Point A yn cynnig diwygiad i gynllun argyfwng y safle i gynnwys newidiadau i'r broses bontio o ddatgomisiynu at ofal a chynhaliaeth trwy ymgorffori trefniadau wrth gefn.

4. Mae'r cais gan safle Oldbury yn cynnig diwygiad i gynllun argyfwng y safle i gynnwys newidiadau sy'n adlewyrchu'r broses bontio i'w drefniadau ar gyfer datgomisiynu.

5. Mae'r cais gan safle Wylfa yn cynnig diwygiad i gynllun argyfwng y safle i gynnwys newidiadau sy'n adlewyrchu'r broses bontio i'w drefniadau datlenwi.

2 CEFNDIR

6. Mae'r cyflwyniadau'n gwneud diwygiadau i ddeg cynllun argyfwng safle adweithydd Magnox , sy'n codi o gynnig i newid y cymorth a ddarperir i safleoedd gan ei swyddogaeth Gymorth Argyfwng Ganolog. Trafodir y newidiadau hyn trwy adolygu ei Dempled Cynllun Argyfwng Generig. Cyflwynwyd ceisiadau ar wahân gan bob safle o dan ei drwydded safle briodol yn gofyn am Gymeradwyaeth o'r diwygiadau neu newidiadau i'r cynllun argyfwng safle ac wedi'i gefnogi gan lythyr corfforaethol yn darparu'r deunydd generig/cyffredinol y seilir pob cynllun safle arno.

7. Mae rhai o'r cynlluniau argyfwng safle'n ymgorffori newidiadau ychwanegol i drafod naill ai newid o ran statws o fewn REPPIR neu newid o ran cyfnod gweithredol.

8. Ar hyn o bryd mae pob safle adweithydd Magnox yn cael ei gefnogi gan Ganolfan Gymorth Argyfwng Ganolog (CESC) a leolir, wedi'i sefydlu, ym Mhencadlys EdF Nuclear Generation Cyfyngedig ym Marnwood, Caerloyw. Mae staff CESC yn cynnwys cyflogeion Magnox Cyf â rhywfaint o gymorth contract. Cynlluniwyd CESC i gefnogi fflyd o orsafoedd pŵer niwclear sy'n cynhyrchu, lle roedd yr arbenigedd technegol i gefnogi'r holl safleoedd wedi'i gasglu a'i ganoli. Caiff y CESC ei ddisodli gan gyfleusterau amgen yn Swyddfa Gymorth Berkeley Magnox y cyfeirir ati fel y Gell Gymorth Ganolog (CSC). Statws cyfredol safleoedd Magnox Cyf yw:

   - Mae'r holl waith cynhyrchu wedi dod i ben
   - Mae Wylfa'n datlenwi, mae'r holl safleoedd eraill wedi cwblhau datlenwi
   - Mae Oldbury yn gwneud cais i gael ei symud o REPPIR Rhe 7 a Rhe 9.
   - Nid oes gan Berkeley, Sizewell, Hunterston A, Bradwell, Dungeness A, Chapelcross, Trawsfynydd a Hinkley Point A unrhyw ofyniad am gynllun argyfwng oddi ar y safle REPPIR.

9. Addasir y trefniadau CESC trwy:

   - Dynnu'n ôl o CESC Barnwood a defnyddio cyfleusterau amgen yn Swyddfa Gymorth Berkeley Magnox, y cyfeirir ati fel y Gell Gymorth Ganolog (CSC).

- Cynnal swyddogaeth a galluogrwydd yr Ystafell Gymorth Beirianneg o bell yng Nghanolfan Dechnegol Oldbury (OTC) Magnox.
- Y safleoedd a effeithir yn cyflenwi swyddogaeth a galluogrwydd y Tîm Asesu Radiolegol.
- Gostwng y staff gwaelodlin CESC o 10 i 5.
- Disodli'r system wybodaeth TiiMS â chyfathrebu trwy e-bost.
- Sefydlu'r CESC yn awtomatig ar gyfer safleoedd sydd â chynlluniau argyfwng oddi ar y safle (h.y. lle mae Rheoliadau 7 a 9 EPPIR yn dal yn gymwys).

3 GWAITH ASESU AC AROLYGU A WNAED GAN ONR TRA'N YSTYRIED Y CAIS HWN

10. Mae ONR wedi cynnal rhaglen o waith sy'n cynnwys asesu ac arolygu cyflwyniadau'r trwyddedai er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â safonau rheoleiddiol a disgwyliadau. Ymgymerwyd â'r ymateb i geisiadau Magnox Cyf yn unol â Chyfarwyddyd ONR perthnasol (Cyfeiriad 59).

11. Mae cofnodion perthnasol cyfarfodydd Pwyllgor Diogelwch Niwclear (NSC) Magnox wedi'u hadolygu a'u hystyried er mwyn darparu sicrwydd ynghylch her annibynnol bellach i'r cyflwyniadau (Cyfeiriad 6). Fe wnaeth yr NSC gynghori'r Cadeirydd i:

- Gytuno'r cynnig i newid y swyddogaeth gymorth argyfwng ganolog (Cyfeiriad 12)
- Cymeradwyo'r Templedi Cynllun Argyfwng Generig (Cyfeiriad 13)
- Cymeradwyo'r trefniadau arfaethedig a ddisgrifir yn Nhrefniadau Damwain ac Argyfwng Cymeradwy Safle Hinkley Point A (Cyfeiriad 14)
- Cymeradwyo'r trefniadau arfaethedig a ddisgrifir yng Nghynllun Argyfwng Safle Oldbury (Cyfeiriad 15)
- Cymeradwyo'r trefniadau arfaethedig a ddisgrifir yng Nghynllun Argyfwng Safle Wylfa (Cyfeiriad 16)

12. Fe wnaeth rheoleiddiwr mewnol Magnox ymgymryd ag arolygiad o'r trefniadau ar gyfer pontio o'r CESC i CSC, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar gyflenwi yn ôl y Cynllun Ansawdd cefnogol (Cyf17). Mae Magnox Cyf wedi cadarnhau bod yr holl weithredoedd oedd yn weddill ar gyfer y rhaglen bontio wedi'u cwblhau a bod ei reoleiddiwr mewnol wedi cymeradwyo'r Cynllun Ansawdd (Cyf 18).

13. Mae'r holl 10 safle bob un wedi ymgymryd ag ymarfer arddangos Lefel 1 sy'n gyson â'r Strategaeth Datgomisiynu Tanwydd a Gwastraff ar gyfer Trefniadau Argyfwng (Cyf 19). Ystyriwyd bod yr holl ymarferion yn arddangosiad digonol o'r trefniadau safle (Cyf 20 i 24) ac ni wnaed unrhyw newidiadau pwysig i'r cynlluniau a fyddai'n newid y casgliadau hyn.

14. Mae'r arolygwyr safle ONR ar gyfer y 10 safle wedi cadarnhau bod y trefniadau argyfwng a gyflwynwyd, yn ymgorffori'r newidiadau i'r swyddogaeth gymorth ganolog, yn dal i fod yn ddigonol ar gyfer digwyddiadau rhagweladwy (Cyfeiriadau 25, 33, 37, 54 a 57).

15. Arddangoswyd ymarferoldeb y swyddogaeth gymorth ganolog adolygedig fel rhan o ymarfer hyfforddi a wnaed yn Wylfa ac a welwyd gan arolygwyr ONR. Ystyriwyd bod yr ymarfer yn ddigonol i gasglu perfformiad i gefnogi unrhyw safle Magnox arall a dyfarnwyd ei bod yn arddangosiad digonol. Trafodir manylion yr ymarfer hon ymhellach yn adran 3.5.1 yr adroddiad hwn.

16. Mae'r adrannau dilynol yn crynhoi'r elfennau sy'n benodol i safle o'r gwaith asesu/arolygu a wnaed fel rhan o'r cyflwyniadau a wnaed.

3.1 NEWID CESC/CSC YN UNIG

3.1.1 CHAPELCROSS, DUNGENESS A, BRADWELL, TRAWSFYNYDD, BERKELEY

17. Nid oes gan unrhyw un o'r safleoedd hyn unrhyw ddamweiniau ymbelydredd y gellir eu rhagweld yn rhesymol ac nid oes arnynt angen cynlluniau argyfwng oddi ar y safle ymhellach. O ganlyniad, mae'n annhebygol y byddant yn defnyddio'r CSC yn y dyfodol. Nid yw'r newidiadau i'r cynlluniau argyfwng oddi ar y safle priodol yn arwyddocaol ac roedd angen newid cyfeiriad o'r CESC i'r CSC yn unig. Mae adolygiad o'r cynlluniau argyfwng yn cadarnhau bod y newidiadau hyn wedi'u gweithredu'n gywir.

3.2 NEWIDIADAU CESC/CSC AC REPPIR

3.2.1 HUNTERSTON A (HNA)

18. Yn ychwanegol at ddisodli'r cyfeiriadau CESC ag CSC a thynnu'r cyfeiriadau at Gynghorydd Technegol y Llywodraeth (GTA) i ffwrdd, mae'r cynllun argyfwng adolygedig HNA a gyflwynwyd yn cynnwys tynnu'r Cynllun argyfwng oddi ar y safle HNA i ffwrdd.

19. Roedd tynnu'r Cynllun argyfwng Oddi ar y safle HNA i ffwrdd yn amodol ar asesiad gan ONR o Nodi Peryglon a Gwerthuso Risg (HIRE) Cofnod o Asesiad (RoA) REPPIR a gynhyrchwyd gan Magnox. Gwnaed yr asesiad gan arolygydd arbenigol astudiaethau bai (Cyf 26) a thîm Parodrwydd Argyfwng ac Ymateb ONR (Cyf 27). Fe wnaeth yr asesiad gasglu bod ONR yn cytuno â chanfyddiadau Magnox nad ellir rhagweld argyfwng pelydredd (fel y'i diffinnir gan REPPIR) yn rhesymol ar y safle HNA. O ganlyniad ac yn gyfatebol, bellach nid oes gofyniad i Gyngor North Ayrshire ddal i baratoi, profi ac adolygu cynllun argyfwng oddi ar y safle REPPIR sy'n cymryd i gyfrif argyfwng pelydredd posibl ar gyfer HNA (Cyf 28).

20. Mae'r Arolygydd Safle Enwebedig ONR dros HNA wedi adolygu'r cynllun argyfwng adolygedig a gyflwynwyd yn Rhifyn 12 yn cadarnhau bod y trefniadau argyfwng a gyflwynwyd, yn ymgorffori'r newidiadau i'r swyddogaeth gymorth ganolog, yn dal i fod yn ddigonol ar gyfer digwyddiadau rhagweladwy (Cyf 29).

3.2.2 SIZEWELL A (SZA)

21. Yn ychwanegol at ddisodli'r cyfeiriadau CESC ag CSC a thynnu'r cyfeiriadau at y GTA i ffwrdd, mae'r cynllun argyfwng adolygedig SZA a gyflwynwyd yn cynnwys tynnu'r Cynllun argyfwng Oddi ar y safle Sizewell A i ffwrdd.

22. Roedd tynnu'r Cynllun argyfwng Oddi ar y safle SZA i ffwrdd yn amodol ar asesiad gan ONR o'r REPPIR ac RoA HIRE a gynhyrchwyd gan Magnox. Gwnaed yr asesiad gan arolygydd arbenigol astudiaethau bai ONR (Cyf 30) a thîm Parodrwydd Argyfwng ac Ymateb ONR (Cyf 31). Fe wnaeth yr asesiad gasglu bod ONR yn cytuno â chanfyddiadau Magnox Cyf nad ellir rhagweld argyfwng pelydredd (fel y'i diffinnir gan REPPIR) yn rhesymol ar y safle SZA. O ganlyniad ac yn gyfatebol, bellach nid oes gofyniad i Gyngor Sirol Suffolk ddal i baratoi, profi ac adolygu cynllun argyfwng oddi ar y safle REPPIR sy'n cymryd i gyfrif argyfwng pelydredd posibl ar gyfer SZA (Cyf 32).

23. Mae'r Arolygydd Safle Enwebedig ONR dros SZA wedi adolygu'r cynllun argyfwng adolygedig a gyflwynwyd yn Rhifyn 13 yn cadarnhau bod y trefniadau argyfwng a gyflwynwyd, yn ymgorffori'r newidiadau i'r swyddogaeth gymorth ganolog, yn dal i fod yn ddigonol ar gyfer digwyddiadau rhagweladwy (Cyf 33).

3.3. NEWID CESC/CSC A PHONTIO AT DREFNIADAU WRTH GEFN

3.3.1 HINKLEY POINT A (HPA)

24. Gan fod y peryglon ar y safle HPA wedi lleihau mae'r trefniadau argyfwng yn cael eu haddasu'n gymesur â'r peryglon cyfredol. Fe wnaeth yr Arolygydd Safle Enwebedig ONR dros HPA arolygu'r ffordd y gweithredwyd y trefniadau adolygedig (Cyf 34). Roedd hyn yn cynnwys arsylwi ar ddefnydd staff HPA o'r trefniadau arfaethedig gan ONR. Mae'r trefniadau adolygedig yn cymryd i gyfrif o gostyngiad o ran perygl.

25. Fe wnaeth yr arolygydd ONR fesur yr ymateb i'r ymarfer fel un o safon dda ac mae wedi cadarnhau ei fod yn fodlon y dylai'r trefniadau fod yn ddigonol mewn digwyddiad y gellir ei ragweld ar y safle (Cyf 35).

26. Nodir bod HPA wedi adolygu teitl ei Gynllun Argyfwng Safle i Drefniadau Damwain ac Argyfwng Cymeradwy'r Safle. Mae'r cais yn dangos bod y trefniadau hyn yn dal i fod y cynllun argyfwng fel y'i Nodir ar gyfer Cymeradwyaeth gan ONR (Cyfeiriad 56).

3.4 NEWID CESC/CSC A PHONTIO AT DDATGOMISIYNU

3.4.1 OLDBURY (OBA)

27. Fel rhan o'r broses aildrefnu o safle datlenwi i safle datgomisiynu, mae OBA yn paratoi i newid y ffordd y bydd yn ymateb i ddigwyddiad ar y safle. Bydd hyn yn adlewyrchu difrifoldeb digwyddiad posibl nawr bod yr holl danwydd wedi'i symud oddi ar y safle. Mae'r paratoadau'n cynnwys ailhyfforddi staff ar gyfer eu rolau newydd pan fydd y trefniadau argyfwng yn newid. Fe wnaeth yr Arolygydd Safle Enwebedig ONR ar gyfer OBA arolygu'r cynnydd gyda hyfforddiant i gefnogi'r broses o weithredu'r trefniadau adolygedig trwy arsylwi ar ymarfer (Cyf 36).

28. Fe wnaeth yr Arolygydd Safle Enwebedig ONR OBA nodi rhai meysydd ar gyfer gwella o ran hyfforddi staff a drfodir gan y trwyddedai. Mae'r arolygydd wedi cadarnhau ei fod yn fodlon y dylai'r trefniadau fod yn ddigonol mewn digwyddiad y gellir ei ragweld ar y safle (Cyf 35).

3.5 NEWIDIADAU CESC/CSC A PHONTIO AT DDATLENWI

3.5.1 WYLFA (WYA)

29. Fel rhan o'r broses aildrefnu o safle datlenwi i safle datgomisiynu, mae OBA yn paratoi i newid y ffordd y bydd yn ymateb i ddigwyddiad ar y safle. Bydd hyn yn adlewyrchu difrifoldeb digwyddiad posibl nawr bod cynhyrchu wedi dod i ben a mae'r safle'n pontio i'w gyfnod datlenwi. Mae'r paratoadau'n cynnwys ailhyfforddi staff ar gyfer eu rolau newydd pan fydd y trefniadau argyfwng yn newid. Fel rhan o'r datblygiad a pharatoadau hyn gwnaed nifer o ymarferion hyfforddi shifft yn WYA. Defnyddiwyd un o'r ymarferion hyn ("Echo 16") i arddangos y trefniadau CSC arfaethedig. (Cyfeiriadau 37 a 38).

30. Arsylwyd ar yr ymarfer gan swyddogaeth reoleiddio fewnol y trwyddedai (Cyf 39) ac arolygwyr ONR ill dau (Cyf 40). Fe wnaeth rheoleiddiwr mewnol Magnox gasglu "fe wnaeth yr ymarfer alluogi'r CSC i arddangos yn llwyddiannus eu trefniadau arfaethedig a chadarnhäwyd hygrededd effeithiol y daenlen RIMNET SDE". Fe wnaeth arolygiad ONR gasglu y gall y trefniadau newydd a'r tîm ymateb yn gyflym i argyfwng o dan y trefniadau newydd. Fe wnaeth ECC Wylfa ymateb yn dda i geisiadau allanol am wybodaeth ac fe wnaethant ddefnydd da o'r CSC i ddarparu cymorth technegol ac i ateb ymholiadau allanol. Ymddengys fod gan adleoli'r swyddogaeth Gymorth Ganolog i Berkeley fanteision dros y sefyllfa bresennol yn y CESC yn arbennig oherwydd argaeledd parod systemau, gwybodaeth ac arbenigedd Magnox Cyf. Fe wnaeth ONR

ddyfarnu bod yr arddangosiad o'r swyddogaeth Gymorth Argyfwng Ganolog ONR yn ddigonol. Cadarnhäwyd bod y data RIMNET yn weladwy i ONR yn Bootle (Cyf 41).

31. Roedd y ddogfennaeth a ddarparwyd i gefnogi'r ceisiadau'n cynnwys copi o lythyr rhwng y Pennaeth Cynllunio Argyfwng a Chyfarwyddwr EHSS&Q Magnox (Cyf 11). Roedd yr ohebiaeth hon yn cyflwyno'r cyfiawnhad ar gyfer y newidiadau i'r swyddogaeth gymorth ganolog ar gyfer "ystyried/adolygu". Mae'r cyfiawnhad yn cyflwyno'r effaith ariannol o ddal i gynnal yr CESC y tu hwnt i 28 Mawrth 2016 i gefnogi Wylfa ac yn ceisio cymorth i gyflwyno Cyfarwyddyd Dros Dro Arbennig i drafod y cyfnod rhwng pontio i CSC a Threfniadau Datlenwi Wylfa yn cael eu Cymeradwyo gan ONR. Darparwyd cadarnhad i gefnogi'r strategaeth hon gan y Cyfarwyddwr ESS&Q (Cyf 42).

32. I gefnogi'r strategaeth y cyfeirir ati yn y paragraff blaenorol, mae Magnox Cyf wedi darparu manylion ynghylch amrywiad dros dro arfaethedig i weithredoedd cynllun argyfwng Wylfa (Cyf 43). Cyflwynwyd yr amagwedd hon i NSC Magnox fel mater oedd yn codi. Fe wnaeth yr NSC ddarparu cytundeb eang i'r ymagwedd ac fe wnaeth yr NSC gynghori'r Cadeirydd i nodi'r datganiad ar fater oedd yn codi (Cyf 44). O gofio'r craffu annibynnol a ddefnyddiwyd a'r cyfnod byr oedd ei angen i'r STI fod mewn grym o gymharu â'r effaith anghymesur i gynnal yr CESC y tu hwnt i 28 Mawrth dylid cefnogi'r ymagwedd arfaethedig gan ONR. Bydd yr STI mewn grym tan ddiwedd Ebrill yn unol â chaniatâd arfaethedig gan ONR i gynllun argyfwng safle Wylfa. Bydd ymyriadau cynllunedig arferol gan ONR yn monitro'r trefniadau dros dro er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn effeithiol.

4 MATERION YN CODI O WAITH ONR

33. Nid oes unrhyw faterion heb eu datrys ar ôl o waith asesu ac arolygu ONR.

5 CASGLIADAU

34. Rwyf yn fodlon trwy gyfuniad o asesiad gan arolygydd arbenigol, arolygiad gan arolyggwyr safle Enwebedig, ac yn unol â chyfarwyddyd ONR, bod yr adolygiadau arfaethedig i'r cynlluniau argyfwng ar gyfer y safleoedd Magnox dilynol yn ddigonol i fodloni gofynion Amod Trwydded 11:

- Trawsfynydd
- Bradwell
- Berkeley
- Chapelcross
- Hunterston A
- Hinkley Point B
- Dungeness A
- Sizewell A
- Oldbury

35. Rwyf yn fodlon bod y newidiadau i'r swyddogaeth gymorth ganolog yn addas i sicrhau bod yr adolygiad arfaethedig i gynllun argyfwng safle Wylfa yn ddigonol i fodloni gofynion Amod Trwydded 11.

36. Cefnogir y strategaeth i fabwysiadu Cyfarwyddyd Dros Dro Arbennig yn Wylfa yn absenoldeb gallu gweithredu cynllun argyfwng safle cymeradwy, yn trafod y newid CESC/CSC, cyn diwedd Ebrill 2016 gan ONR.

6 ARGYMHELLION

26. Rwyf yn argymell:

- Mae'r Arolygydd Goruchwylio am yr is-raglen ar gyfer Safleoedd Magnox ac Adfer yn derbyn y dyfarniadau rheoleiddiol yn yr adroddiad hwn sy'n cyfiawnhau cyhoeddi Offer Trwydded (LI) 537, 511, 512, 529, 512 508, 523, 513, a 553.
- Mae'r Arolygydd Goruchwylio am yr is-raglen ar gyfer Safleoedd Magnox ac Adfer yn cymeradwyo'r adroddiad hwn i'w gyhoeddi wedi ei olygu fel sy'n briodol.
- Mae'r Cyfarwyddwr Rhaglen am y Rhaglen Ddatgomisiynu, Tanwydd a Gwastraff yn llofnodi'r Offer Trwydded a restrir uchod yn rhoi Cymeradwyaeth o'r newidiadau neu ddiwygiadau i'r cynlluniau argyfwng o dan LC 11(3) ar gyfer y safleoedd dilynol:
  - Bradwell (LI 512)
  - Berkeley (LI 511)
  - Chapelcross (LI 537)
  - Hunterston A (LI 523)
  - Hinkley Point A (LI 508)
  - Dungeness A (LI 512)
  - Sizewell A (LI 513)
  - Oldbury (LI 553)
  - Trawsfynydd (LI 529)

7 CYFEIRIADAU

1. Llythyr CX50554Y, dyddiedig 7 Ionawr 2016, Cais am Gymeradwyaeth O Dan Amod Trwydded 11(3) o'r Diwygiad i Gynllun Argyfwng Chapelcross, TRIM 2016/20436.

2. Llythyr BKA51001R, dyddiedig 11 Ionawr 2016, Cais am Gymeradwyaeth O Dan Amod Trwydded 11(3) o'r Diwygiad i Gynllun Argyfwng Berkeley, TRIM 2016/18511.

3. Llythyr DNA51601R, dyddiedig 7 Ionawr 2016, Cais am Gymeradwyaeth O Dan Amod Trwydded 11(3) o'r Diwygiad i Gynllun Argyfwng Dungeness A, TRIM 2016/18444.

4. Llythyr TRW50830R, dyddiedig 14 Ionawr 2016, Cais am Gymeradwyaeth i Ddiwygio Cynllun Argyfwng Safle Trawsfynydd O Dan Amod Trwydded 11(3) Atodlen 2. Wedi'i Gysylltu â Thrwydded Safle Niwclear Rhif 81, TRIM 2016/38817.

5. Llythyr BWA53074, dyddiedig 11 Ionawr 2016, Cais am Gymeradwyaeth O Dan Amod Trwydded 11(3) o'r Diwygiad i Gynllun Argyfwng Bradwell, TRIM 2016/18288.

6. Llythyr HNA51207N, dyddiedig 26 Ionawr 2016, Cais am Gymeradwyaeth O Dan Amod Trwydded 11(3) o'r Diwygiad i Gynllun Argyfwng Hunterston A, TRIM 2016/39096.

7. Llythyr SZA52028R, dyddiedig 19 Ionawr 2016, Cais am Gymeradwyaeth O Dan Amod Trwydded 11(3) o'r Diwygiad i Gynllun Argyfwng Sizewell A, TRIM 2016/30685.

8. Llythyr OBA50990R, dyddiedig 14 Ionawr 2015, Cais am Gymeradwyaeth O Dan Amod Trwydded 11(3), o'r Diwygiad i Gynllun Argyfwng Oldbury TRIM 2015/20765.

9. Llythyr WYF52460R, dyddiedig 22 Rhagfyr 2015, Amod Trwydded 11(3) – Trefniadau Argyfwng, Cais am Gymeradwyaeth o Rifyn 11 Cynllun Argyfwng Wylfa, Dogfen WAY/EMP/001 O Dan Amod Trwydded 11(3), TRIM 2015/490682.

10. Llythyr HPA60123R, dyddiedig 21 Mawrth 2016, Cais am Gymeradwyaeth O Dan Amod Trwydded 11(3) o'r Diwygiad i Gynllun Argyfwng Hinkley Point A. TRIM 2016/121823.

11. Llythyr MXL32287N, dyddiedig 13 Ionawr 2016, Dogfennau i Gefnogi 10 Cynllun Argyfwng Magnox (Berkeley, Bradwell, Chapelcross, Dungeness A, Hinkley Point A, Hunterston A, Oldbury, Sizewell A, Trawsfynydd ac Wylfa). TRIM 2016/20890.

12. Cofnodion Cyd-gyfarfod Pwyllgorau Diogelwch Niwclear Berkeley, Bradwell, Chapelcross, Dungeness A, Hinkley Point A, Hunterston A, Oldbury, Sizewell A, Trawsfynydd ac Wylfa Magnox Cyfyngedig a gynhaliwyd ar ddydd Iau 2 Gorffennaf 2015. TRIM 2015/269875.

13. Cofnodion Cyd-gyfarfod Pwyllgorau Diogelwch Niwclear Berkeley, Bradwell, Chapelcross, Dungeness A, Hinkley Point A, Hunterston A, Oldbury, Sizewell A, Trawsfynydd ac Wylfa Magnox Cyfyngedig a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 20 Medi 2015. TRIM 2015/392765.

14. Cofnodion Cyd-gyfarfod Pwyllgorau Diogelwch Niwclear Berkeley, Bradwell, Chapelcross, Dungeness A, Hinkley Point A, Hunterston A, Oldbury, Sizewell A, Trawsfynydd ac Wylfa Magnox Cyfyngedig a gynhaliwyd ar ddydd Iau 5 Tachwedd 2015. TRIM 2015/441385.

15. Cofnodion Cyd-gyfarfod Pwyllgorau Diogelwch Niwclear Oldbury ac Wylfa Magnox Cyfyngedig a gynhaliwyd ar ddydd Iau 2 July 2015 yng Nghanolfan Dechnegol Oldbury. TRIM 2015/269786.

16. Cofnodion Cyd-gyfarfod Pwyllgorau Diogelwch Niwclear Oldbury ac Wylfa Magnox Cyfyngedig a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 30 Medi 2015 yng Nghanolfan Dechnegol Oldbury. TRIM 2015/392805.

17. Adroddiad Arolygiad Gwyliadwriaeth Magnox Cyf, Trefniadau ar gyfer Rheoli'r broses Bontio o CESC to CSC, Rhid Adroddiad: CSC-INS-001. TRIM 2016/119881.

18. Cadarnhad o gwblhau'r Rhaglen Bontio gan Magnox Cyf TRIM 2016/120446.

19. Adolygiad o Drefniadau Argyfgwng ONR ar safleoedd Adweithydd Magnox – Strategaeth Newydd. ONR-DFW-PAR-15-004 Adolygiad 0. TRIM 2015/161756.

20. Llythyr CX71360, dyddiedig 8 May 2015. LC 11 Trefniadau Argyfgwng Ymarfer Arddangos Lefel 1 "Quincy". TRIM 2015/171592.

21. Llythyr BKA80068N, dyddiedig 31 Hydref 2014. Berkeley, Ymarfer Argyfwng Arddangos Flynyddol lefel 1 Orlando. TRIM 2014/401844.

22. Llythyr DNA80042, dyddiedig 15 Rhagfyr 2014. Dungeness A, Ymarfer Arddangos 'Tansy' Lefel 1, 22ain Hydref 2014. TRIM 2014/450043.

23. Llythyr TRA70930N, dyddiedig 1 Mehefin 2015. Ymarfer Arddangos Lefel 1 'Spitfire'. TRIM 2015/201470.

24. Llythyr BRA80073Y, dyddiedig 1 Gorffennaf 2015. Ymarfer Arddangos Lefel 1 'Gold' – 17 Mehefin 2015. TRIM 2015/242031.

25. BRA/TRW Trefniadau Argyfgwng – Cadarnhad yr Arolygydd Safle o Ddigonolrwydd. TRIM 2016/128803.

26. Asesiad Astudiaethau Bai Hunterston A, Adroddiad HIRE. ONR-DFW-AR-14-009, Rhagfyr 2014. TRIM 2014/288696.

27. Penderfyniad ar y gofyniad ynghylch Cynllunio Argyfwng Oddi ar y Safle ac Ardaloedd Gwybodaeth Flaenorol ar gyfer Safle Trwyddedig Niwclear Hunterston A: Rheoliadau Pelydredd (Parodrwydd Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001. ONR-COP-PAR-15-003 Adiolygiad 0. TRIM 2016/78969.

28. Llythyr ONR-EPR-16-52, dyddiedig 17 Mawrth 2016. Cynllunio Argyfwng Oddi ar y Safle ac Ardal Gwybodaeth Flaenorol Hunterston A. TRIM 2016/49045.

29. HNA/CX Trefniadau Argyfgwng - Cadarnhad yr Arolygydd Safle o Ddigonolrwydd. TRIM 2016/121948.

30. Asesiad Astudiaethau Bai Sizewell A, adroddiad HIRE, Rhagfyr 2015. ONR-DFW-AR-15-016. TRIM 2015/447508

31. Penderfyniad ar y gofyniad ynghylch Cynllunio Argyfwng Oddi ar y Safle ac Ardaloedd Gwybodaeth Flaenorol ar gyfer Safle Trwyddedig Niwclear Sizewell A: Rheoliadau Pelydredd (Parodrwydd Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001. ONR-COP-PAR-15-012 Adolygiad1. Cyf TRIM 2015/470904

32. Llythyr ONR-EPR-16-25, dyddiedig 28 Ionawr 2016. Cynllunio Argyfwng Oddi ar y Safle ac Ardal Gwybodaeth Flaenorol Sizewell A. TRIM 2016/40511

33. DNA/SZA Trefniadau Argyfgwng - Cadarnhad yr Arolygydd Safle o Ddigonolrwydd. TRIM 2016/121943.

34. ONR-DFW-IR-15-146, Arolygiadau ymyriad cynllunedig safle trwyddedig niwclear Hinkley Point A 22 – 26 Chwefror 2016. TRIM 2016/94273.

35. HPA/OBA Trefniadau Argyfgwng - Cadarnhad yr Arolygydd Safle o Ddigonolrwydd. TRIM 2016/122305.

36. ONR-DFW-IR-15-141, Arolygiadau system ddilysu, pwll rhydd rhag tanwydd safle trwyddedig niwclear Oldbury 9 – 12 Chwefror 2016. TRIM 2016/75057.

37. Echo 16 Senario Ymarfer, Senario Ymarfer a Nodiadau'r Dyfarnwr. TRIM 2016/122436.

38. Ymarfer Argyfwng Echo 16 – Nodyn cyn briffio ar gyfer Elfennau CSC yr Ymarfer. TRIM 2016/122552.

39. Adroddiad Asesiad Tîm Sicrwydd Magnox Cyf, Arsyllu ar Ymarfer Argyfwng Wylfa Echo 16. EHSSQ/REP/KF/2016/01. TRIM 2016/122580.

40. IR ONR-DFW-IR-15-138 Magnox Cyf – Gorsaf Bŵer Wylfa - Arolygiad caniatáu a chasglu gwybodaeth - 26ain-27ain Ionawr 2016. TRIM 2016/48508.

41. Cadarnhad y derbyniwyd data RIMNET o Ymarfer Echo 16 gan ONR. 2016/119865.

42. Cadarnhad gan Gyfarwyddwr EHSS&Q ar gyfer Cymorth i Gyfarwyddyd Dros Dro Arbennig Magnox Cyf yn Wylfa rhwng Newid i CSC a chymeradwyo Trefniadau Argyfwng datlenwi Wylfa. TRIM 2016/122729.

43. Llythyr WYF52494R, dyddiedig 15 Mawrth 2016. LC11 Amrywiad Dros Dro i Gamau Gweithredu Cynllun Argyfwng Wylfa. TRIM 2016/120599.

44. Cofnodion Cyd-gyfarfod Pwyllgorau Diogelwch Niwclear Oldbury ac Wylfa Magnox Cyfyngedig a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 8 Rhagfyr 2015. TRIM 2015/489655.

45. Offeryn Trwydded (LI) 537 Cymeradwyaeth ONR O Dan LC11(3) ar gyfer diwygio Cynllun Argyfwng Chapelcross. Cyf TRIM. 2016/117866

46. Offeryn Trwydded (LI) 511 Cymeradwyaeth ONR O Dan LC11(3) ar gyfer diwygio Cynllun Argyfwng Berkeley. Cyf TRIM. 2016/117895

47. Offeryn Trwydded (LI) 512 Cymeradwyaeth ONR O Dan LC11(3) ar gyfer diwygio Cynllun Argyfwng Dungeness A. Cyf TRIM. 2016/117908

48. Offeryn Trwydded (LI) 553 Cymeradwyaeth ONR O Dan LC11(3) ar gyfer diwygio Cynllun Argyfwng Oldbury. Cyf TRIM. 2016/117945

49. Offeryn Trwydded (LI) 523 Cymeradwyaeth ONR O Dan LC11(3) ar gyfer diwygio Cynllun Argyfwng Hunterston. Cyf TRIM. 2016/117934

50. Offeryn Trwydded (LI) 513 Cymeradwyaeth ONR O Dan LC11(3) ar gyfer diwygio Cynllun Argyfwng Sizewell A. Cyf TRIM. 2016/117942

51. Offeryn Trwydded (LI) 512 Cymeradwyaeth ONR O Dan LC11(3) ar gyfer diwygio Cynllun Argyfwng Bradwell. Cyf TRIM. 2016/117921

52. Offeryn Trwydded (LI) 508 Cymeradwyaeth ONR O Dan LC11(3) ar gyfer diwygio Cynllun Argyfwng Hinkley Point A. Cyf TRIM. 2016/117927

53. Offeryn Trwydded (LI) 529 Cymeradwyaeth ONR O Dan LC11(3) ar gyfer diwygio Cynllun Argyfwng Trawsfynydd. Cyf Trim. 2016/129573

54. Trefniadau Argyfgwng BKA - Cadarnhad yr Arolygydd Safle o Ddigonolrwydd. TRIM 2016/122930.

55. *Canllaw HOW2 ONR –Paratoi a Chyhoeddi Offer Trwydded- NS-PER-IN-001 Adolygiadn 6*. Mai 2014. http://www.onr.org.uk/operational/assessment/index.htm

56. Trwydded Safle Niwclear 52, Manyleb i Gyflwyno Cynllun Argyfwng Gorsaf Bŵer Hinkley Point A i'w gymeradwyo, Offeryn Trwydded Rhif 1. TRIM 2016/122984.

57. Trefniadau Argyfgwng TRW - Cadarnhad yr Arolygydd Safle o Ddigonolrwydd. TRIM 2016/128809.